

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Ionawr Clerc y Pwyllgor
2017 0300 200 6565
Amser: 09.15 SeneddPPIA@cynulliad.cymru

09.15 – 09.30 – Cyfarfod anffurfiol

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.30)

2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol –
sesiwn graffu gyffredinol

(09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 28)

Llywodraeth Cymru

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dr Sarah Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed
a Throseddwr

Dr Frank Atherton, Brif Swyddog Meddygol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

CYPE(5)-02-17 Papur | Paper 1



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

3 Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 2

(11.00 – 12.00)

(Tudalennau 29 – 39)

Denise Inger, Prif Weithredwr – SNAP Cymru

Debbie Thomas, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd – y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Tim Ruscoe, Swyddog Materion Cyhoeddus Cymru – Barnardo's Cymru

Zoe Richards, Rheolwr Pobl Ifanc a Gofalwyr – Anabledd Dysgu Cymru

Angie Contestabile, Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd – Sense Cymru

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

CYPE(5)-02-17 – Papur | Paper 2

CYPE(5)-02-17 – Papur | Paper 2a – SNAP Cymru

4 Papurau i'w nodi

(12.00)

Llythyr gan NUS Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(Tudalennau 40 – 41)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-02-17 – Papur | Paper 3 – i'w nodi | to note

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Rhagor o wybodaeth ynghylch

Llwybrau Llwyddiant

(Tudalennau 42 – 43)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-02-17 – Papur | Paper 4 – i'w nodi | to note

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(12.05)

6 Ymchwiliad i Ddarpariaeth o ran Eiriolaeth Statudol – Trafod yr adroddiad drafft

(12.05 – 12.25)

(Tudalennau 44 – 57)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-02-17 – Papur | Paper 5 – preifat | private

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

SESIWN GRAFFU GYFFREDINOL Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG

Dyddiad: 18 Ionawr 2017 – 9.30-11.00

Lleoliad: Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Diben

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar y meysydd y canolbwyntir arnynt a'r materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ar draws y portffolio Gweinidogol Iechyd, Lles a Chwaraeon.

Trosolwg o ffocws y portffolio mewn perthynas â Phlant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae'r Llywodraeth hon wedi dangos ei hymrwymiad i blant a phwysigrwydd dull partneriaeth, trawsportffolio o sicrhau gwell canlyniadau i blant ledled Cymru drwy benodi Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

Mae'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i sicrhau y bydd dull ar y cyd o gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu newydd.

Byddwn yn parhau i hybu gwelliannau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod 2017 a byddwn yn barnu cynnydd ar sail gwell canlyniadau ar i bel y nodir yn ein Fframweithiau Canlyniadau ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Iechyd, Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar draws ein portffolios, mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym bod angen parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae'n wir o hyd bod cysylltiad clos rhwng rhagolygon iechyd plant a sefyllfa economaidd-gymdeithasol eu teuluoedd. Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad diweddar ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod, mae dull rhianta da yn cyfrannu'n sylweddol at ddarparu canlyniadau gwell i blant. Byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth i roi cymorth a chynghor priodol i rieni drwy wasanaethau megis Rhaglen Plant Iach Cymru. Ceir tystiolaeth gynyddol sy'n dangos mai ymyrryd yn gynnar yn ystod y blynyddoedd cynnar sy'n rhoi'r gwerth mwyaf. Bydd ffocws parhaus ar gyflawni yn y maes hwn drwy'r Strategaeth Mamolaeth, rhaglenni sgrinio ac imiwneiddio effeithiol, y Rhaglen 10 Cam i Bwysau Iach, cyflwyno Rhaglen Plant Iach Cymru a datblygu'r Rhaglen 1,000 o Ddiwrnodau.

Er mwyn inni gefnogi plant ledled Cymru yn llawn i gynyddu eu potensial i'r eithaf, mae angen inni gefnogi lles meddwl a chorfforol da, fel yr amlygir drwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'r mentrau parhaus i wella deiet plant a chynyddu eu lefelau gweithgaredd yn unol ag argymhellion y Prif Swyddog Meddygol.

Ein nod bob amser fydd darparu gwasanaethau iechyd arbenigol i blant sydd eu hangen, ond rhaid inni ganolbwyntio ar atal er mwyn inni allu parhau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau ein plant yn y tymor byr a phan fyddant yn oedolion.

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Cyflwynwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2016. Mae'r Bil yn cyfuno'r systemau presennol, penodol ar gyfer cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc mewn ysgolion ac addysg bellach. Mae'n creu un system deddfwriaethol i gefnogi dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) rhwng 0-24 oed.

Rhan ganolog o'r diwygiadau yw sefydlu'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU), a fydd yn disodli, ac yn bodloni gofynion, yr holl gynlluniau addysgol statudol ac anstatudol sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA), Cynlluniau Dysgu a Sgiliau a chynlluniau ysgolion a cholegau.

Un o brif amcanion y diwygiadau deddfwriaethol yw gwella'r gwaith partneriaeth amlasiantaeth sy'n ymwneud â nodi ADY a chynllunio a darparu darpariaeth dysgu ychwanegol effeithiol.

Mae'r Bil yn nodi nifer o ddarpariaethau i sicrhau bod GIG Cymru (bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG) yn chwarae rhan lawn ond gymesur yn y system newydd:

- Bydd yn ofynnol i gorff iechyd gyfeirio unrhyw blentyn cyn-oed ysgol sydd ag ADY yn eu barn hwy at yr awdurdodau lleol er mwyn ei ystyried, os bydd y corff iechyd yn fodlon y byddai gwneud hynny er budd gorau i'r plentyn;
- Bydd yn ofynnol i gorff iechyd roi gwybodaeth i awdurdodau lleol, neu help arall, er mwyn cyflawni eu swyddogaethau eu hunain o dan y Bil, oni fyddai gwneud hynny yn mynd yn groes i ddyletswyddau'r corff ei hun, neu'n cael effaith niweidiol ar y broses o gyflawni swyddogaethau'r corff;
- Yn dilyn asesiad o'r angen clinigol, bydd yn ofynnol i gorff iechyd sicrhau'r ddarpariaeth a nodwyd yn y CDU lle mae'r driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw yn debygol o fod o fudd i'r plentyn neu'r person ifanc;
- Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddynodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig profiadol i sicrhau ansawdd y broses o ddarparu a chydgyssylltu cyfraniad y gweithwyr iechyd proffesiynol at ddarparu cyngor a gwasanaethau i unigolion ag ADY. Diben y rôl strategol hon fydd cryfhau'r cyswllt a'r cydweithredu rhwng y gwasanaethau iechyd ac addysg, helpu i ddymchwel unrhyw rwystrau i weithio mewn partneriaeth, sicrhau bod CDU yn cynnwys ymyriadau iechyd ar sail tystiolaeth a bod byrddau iechyd yn cyflawni eu dyletswyddau cydweithredol.

Mae swyddogion o'r adrannau iechyd ac addysg wedi gweithio'n agos i ddiwygio'r Bil er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015.

Mae'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau drwy'r Grŵp Arbenigol ar Iechyd ADY, a grëwyd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r cod ymarfer statudol i'w gyhoeddi o dan y Bil. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig ymhellach, yn cynnwys ei threialu mewn rhai byrddau iechyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol (y cytunwyd ar y cyllid ar ei gyfer gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes).

Mae'r Bil yn rhan o becyn o ddiwygiadau a nodwyd yn y Rhaglen Trawsnewid ADY sy'n cynnwys cyfres o ddiwygiadau deddfwriaeth a pholisi i wella profiadau a chanlyniadau i ddysgwyr ag ADY.

CAMHS

Ar 24 Tachwedd cafodd y Pwyllgor frïff gan Carol Shillabeer, Cadeirydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, ar y cynnydd a wneir gan y Rhaglen wrth archwilio'r ffordd y mae CAMHS yn gweithio gyda'i bartneriaid i ddarparu ar gyfer anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn dilyn sesiwn craffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ym mis Medi, lle yr ystyriwyd cynnydd CAMHS.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn y GIG a phartneriaid i gydgrynhoi ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed ers 2015. Sicrhaodd cyllideb 2017-18 £20m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob oedran gan glustnodi dros £629m ar gyfer y maes iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys £0.5m a neilltuwyd i ymestyn Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta ar gyfer pob oedran. Er mai dim ond megis cychwyn y mae'r trafodaethau, ein bwriad, ymhlith pethau eraill, yw defnyddio'r cyllid hwn i ymestyn cylch gwaith Timau Anhwylderau Bwyta Cymunedol Haen 3 arbenigol presennol ar gyfer oedolion, i weithio gyda'r glasoed hŷn sydd ag anhwylderau bwyta er mwyn darparu gofal parhaus yn ystod y cyfnod pontio i fyd oedolion.

Mae amseroedd aros wedi bod yn faes y mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio arno yn y gorffennol ac mae'r holl fyrddau iechyd yn nodi eu bod naill ai'n cydymffurfio ar hyn o bryd neu y byddant yn cydymffurfio yn 2017 â'r targed atgyfeirio 28 diwrnod ar gyfer CAMHS a osodwyd yn Ebrill 2016.

Mewn perthynas â CAMHS mae ystadegau'n dangos, yn y 12 mis hyd fis Hydref 2016, y cafwyd cynnydd o 16% yn nifer yr atgyfeiriadau at CAMHS, o gymharu â'r cyfnod 12 mis blaenorol. Fodd bynnag, o gymharu'r data o fis Hydref 2015 â mis Hydref 2016, cafwyd gostyngiad o 31% yn y rhai a oedd yn aros dros 4 wythnos a gostyngiad o 44% yn y rhai a oedd yn aros dros 26 wythnos. Mae hyn o ganlyniad i waith caled y partneriaid sy'n ymwneud â'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a bron i £8m o fuddsoddiad newydd blynyddol a wnaed gennym yn CAMHS. Mae'n cymryd amser i recriwtio staff, sefydlu gwasanaethau newydd a gwella gwasanaethau presennol, ond mae'r ystadegau'n dangos yn glir, er gwaethaf y cynnydd mewn atgyfeiriadau, bod amseroedd aros yn gwella'n sylweddol.

Dim ond cipolwg ar wybodaeth ansoddol a geir mewn ystadegau. Er mwyn disgrifio'r newid diwylliannol yn y ffordd y mae CAMHS yn darparu ei wasanaethau ac yn canolbwyntio'n fwy ar anghenion y person ifanc mae angen inni edrych ar gynllun gwasanaethau. Erbyn hyn mae timau ymyrraeth mewn argyfwng newydd yn gweithredu ledled Cymru, gan ddarparu asesiadau ac ymyriadau brys ar benwythnosau, gyda'r nos a thros nos, lle yr oeddent yn gweithredu'n bennaf yn ystod oriau gwaith yn flaenorol. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud hefyd ar draws gwasanaethau presennol gan y timau ymyrraeth gynnar mewn seicosis, sy'n dimau newydd. Mae'r rhain yn darparu gofal dwys di-dor i bobl ifanc rhwng 15 a 24 oed sy'n profi'r salwch meddwl mwyaf difrifol drwy 'gynnal a chefnogi'r' person ifanc, darparu

gofal parhaus a meithrin perthynas yn hytrach na'u trosglwyddo'n annisgwyl rhwng gwasanaethau yn 18 oed.

Mewn perthynas â'r targed niwroddatblygiadol o 26 wythnos, mae byrddau iechyd yn ein hysbysu eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni hyn yn 2017. Fodd bynnag, gan fod hwn yn darged newydd mae angen inni sefydlu dull adrodd ffurfiol a diffiniadau clir yn unol â safonau gwybodaeth a threfniadau llywodraethu'r GIG. Mae hyn dan reolaeth a rhagwelwn y bydd dull adrodd ffurfiol ar waith erbyn gwanwyn 2017.

Mae'r Pwyllgor wedi dangos diddordeb mewn derbyniadau cleifion mewnol CAMHS, yn enwedig y sefyllfa yng Ngwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru ac mae Carol Shillabeer wedi rhannu briff ar sefyllfa bresennol y Gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir, ar ôl buddsoddi'n sylweddol i ddatblygu darpariaeth cleifion mewnol CAMHS penodedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y dylai pobl ifanc dderbyn gofal yn un o'r ddwy uned CAMHS oni bai bod rhesymau cryf fel arall. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae uned De Cymru wedi agor ail ward gofal uchel i ddarparu ar gyfer mwy o bobl ifanc sydd â'r salwch meddwl mwyaf difrifol. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae'r uned wedi gorfod cwtoegi derbyniadau oherwydd ei bod yn darparu cymorth dwys i un person ifanc â salwch difrifol, a darparwyd hyn yn unol ag angen clinigol ac mae'r uned yn parhau i fod yn gwbl weithredol ar yr adeg hon.

Er mwyn lleddfu'r pwysau ar Wasanaeth Glasoed Gogledd Cymru mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BI PBC) wedi sefydlu tîm cymunedol bach er mwyn darparu gofal yn y cartref i blant ag Anhwylderau Bwyta. Mae hyn yn rhyddhau gwelyau gan leddfu'r pwysau i anfon pobl ifanc allan o'r ardal. Mae BI PBC hefyd wedi defnyddio rhywfaint o'r buddsoddiad CAMHS i ymestyn ei rota seiciatrig y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod arbenigwyr ar gael i asesu'n brydlon a lleihau'r angen i dderbyn cleifion i wardiau oedolion. Rydym hefyd wedi ariannu timau triniaeth ddwys gymunedol estynedig er mwyn i ragor o blant allu derbyn gofal yn eu cymuned heb yr angen i fynd i'r ysbyty neu gyfnodau byrrach pan fydd angen gofal cleifion mewnol. Mae hyn wedi golygu bod mwy o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, yn agosach i'w cartrefi ac mae wedi lleihau costau lleoli y tu allan i'r ardal.

Gordewdra ymysg plant

Mae gan y rhan fwyaf o blant pedair i bump oed yng Nghymru bwysau iach (72.9%). Fodd bynnag, mae un o bob pedwar dros bwysau neu'n ordew, ac nid yw'r lefel hon wedi newid yn ystod y tair blynedd ers dechrau casglu'r data. Mae hyn yn annerbyniol o uchel.

Gwyddom y bydd hyn yn parhau i godi yn ystod yr ysgol gynradd, a bydd mwyafrif y plant sy'n ordew yn parhau i fod yn ordew pan fyddant yn oedolion. Ceir cysylltiad clir hefyd rhwng lefelau amddifadedd a chyfraddau'r rhai sydd dros bwysau neu'n ordew.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu pwysleisiwn ein hymrwymiad i fynd i'r afael â gordewdra. Er bod y portffolios Gweinidogol ar gyfer Iechyd, Lles a Chwaraeon, a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd yn dod â nifer o brif elfennau o'r

agenda hon ynghyd, mae'n gofyn am weithredu trawsbortffolio ehangach er mwyn creu'r amgylchedd a'r cyfle i bobl ddewis ffordd o fyw iachach. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r maes Addysg ar y cwricwlwm diwygiedig ac ar safonau bwyd ysgolion. Yn ddiweddar cyfarfu'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i atgyfnerthu'r gwaith ar y cyd i wella iechyd a lles plant. Un cam gweithredu cynnar yw cefnogi ysgolion cynradd i weithredu'r cynllun 'Milltir Ddyddiol', menter arloesol a syml i gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn barod i ddysgu, yn emosiynol ac yn gorfforol. Mae tystiolaeth¹ bod cysylltiad cryf rhwng llesiant a chanlyniadau addysgol. Mae plant sydd â lefelau uwch o lesiant emosiynol, ymddygiadol, cymdeithasol a llesiant yn yr ysgol, ar gyfartaledd, yn cyrraedd lefelau uwch o gyflawniad academiaidd ac maent yn fwy brwdfrydig yn yr ysgol, ar yr un pryd ac mewn blynyddoedd diweddarach. Bydd gweithredu chwe Maes Dysgu a Phrofiad newydd yn ganolog i'r cwricwlwm newydd, a fydd yn cynnwys Iechyd a Llesiant

Rydym eisoes wedi cyflwyno safonau maethol mewn rhai o'n lleoliadau cyhoeddus, megis ysgolion ac ysbytai, ac rydym yn datblygu dulliau tebyg ar gyfer lleoliadau eraill yn cynnwys y blynyddoedd cynnar. Caiff hyn ei ategu hefyd drwy weithio gyda Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod gofynion maethol yn cael eu hystyried yn y dull caffael canolog ar gyfer y sector cyhoeddus.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a byrddau Iechyd i ddatblygu ymyriadau cynnar effeithiol sy'n cynnwys yr ymgyrch 10 Cam i Bwysau Iach a lansiwyd ym mis Mawrth 2016. Nod yr ymgyrch yw cysoni camau gweithredu ar draws y system i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at fod dros bwysau ac yn ordew.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gydag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru er mwyn darparu mwy o gyfleoedd a chyfleoedd o ansawdd uwch i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Mae'r rhaglenni Campau'r Ddraig a 5 x 60 yn arbennig yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n ymwneud â chwaraeon.

Byddwn yn parhau i weithio gyda byrddau Iechyd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd Llywybr Gordewdra Cymru Gyfan sy'n nodi'r dull ar gyfer atal a thrin gordewdra yng Nghymru, yn cynnwys gofynion ar gyfer cynllunio'r ymyriadau ar gyfer plant.

Cefnogwn y Rhaglen Sgiliau Maeth am Oes sy'n anelu at roi'r sgiliau i Cymunedau yn Gyntaf; Dechrau'n Deg a Gweithwyr Cymdeithasol i hybu arferion bwyta'n iach ac ymgorffori negeseuon ffordd o fyw iach yn eu gwaith.

Ar y cyd ag adrannau Iechyd eraill y DU, rydym yn parhau i weithio gyda diwydiant bwyd y DU i ddylanwadu ar argaeledd cynnyrch iachach, gan annog y defnydd o gynllun labelu ar flaen pecynnau Llywodraeth y DU a dulliau hyrwyddo a marchnata cyfrifol. Gwnaethom groesawu rhai o'r camau gweithredu yn Strategaeth Gordewdra

¹ Gutman and Vorhaus (2012), 'The Impact of Pupil Behaviour and Wellbeing on Educational Outcomes' https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/219638/DFE-RR253.pdf

ymysg Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU megis yr ardoll siwgr ar ddiodydd melys a rhaglen wirfoddol ar gyfer lleihau siwgr ar gyfer y diwydiant bwyd, yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer halen. Fodd bynnag, hoffem fod wedi gweld mwy o weithredu ar lefel y DU, megis camau mwy cadarn ar siwgr, ac ar hysbysebu bwydydd afiach i blant.

Rydym hefyd yn croesawu'r cyfyngiadau newydd ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diodydd ysgafn sydd â lefelau uchel o fraster, halen neu siwgr i blant ar draws cyfryngau na chânt eu darlledu i gynulleidfaoedd eang. Ni chredwn fod y cyfyngiadau newydd yn mynd yn ddigon pell a byddwn yn parhau i bwyso am waharddiad llwyr ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diodydd ysgafn sydd â lefelau uchel o fraster, halen neu siwgr ar draws pob cyfrwng, yn cynnwys y teledu, y gallai ein plant ei wyllo.

[Rwyf/Rydym] wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr yn amlinellu ein pryderon mewn perthynas â'r ddau fater a amlygwyd uchod.

Wedi dweud hyn, rydym yn cydnabod nad yw mynd i'r afael â gordewdra yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud ar ei phen ei hun. Mae'n gofyn am gamau ar y cyd gan ystod eang o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a chan yr unigolion eu hunain.

Rhaglen Plant Iach Cymru

Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd wedi cael effaith sylweddol ar iechyd, datblygiad cymdeithasol ac addysgol plant a'u canlyniadau yn yr hirdymor. Mae gan y gwasanaeth iechyd rôl holl bwysig i'w chwarae i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod plant mewn sefyllfa i gyflawni eu potensial yn llawn.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys Rhaglen Plant Iach Cymru, sy'n darparu rhaglen iechyd gyffredinol i bob teulu sydd â phlant hyd at saith oed.

Dechreuodd pob bwrdd iechyd yng Nghymru weithredu'r Rhaglen Plant Iach o 1 Hydref 2016 ymlaen. Bydd gan fyrddau iechyd ddwy flynedd i lawn gyflwyno amserlen gyffredinol Cymru gyfan ar gyfer ymweliadau iechyd a nyrsio ysgol.

Mae'r Rhaglen Plant Iach yn cynnwys ystod gyson o fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar ar sail tystiolaeth, a chyngor a chanllawiau i gefnogi dulliau rhianta a dewis ffordd iach o fyw. Mae'r Rhaglen yn nodi pa gysylltiadau y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu byrddau iechyd; o ddulliau trosglwyddo'r gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu tri maes ymyrraeth; sgrinio, imiwneiddio a monitro a chefnogi datblygiad plant.

Mae cyflwyno'r Rhaglen Plant Iach yn cyflawni'r camau gweithredu o *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*.

1,000 o ddiwrnodau

Nod Rhaglen Gydweithredol y 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant yn ystod 1,000 o ddiwrnodau cyntaf eu bywyd (o adeg eu geni tan eu pen-blwydd yn ddwy oed). Mae Rhaglen Gydweithredol y 1,000 o Ddiwrnodau Cyntaf, sy'n cael ei harwain gan lechyd Cyhoeddus Cymru, yn cydnabod bod y cyfnod hollbwysig hwn o fywyd yn dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad plant a'u hiechyd ar hyd eu hoes, a'r enillion uchel ar fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau a'r gymdeithas yn ehangach.

Mae tri chanlyniad ar gyfer y Rhaglen, sef:

- Y canlyniad gorau posibl ar gyfer pob beichiogrwydd
- Plant yng Nghymru yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol yn ddyflwydd oed
- Nid yw plant yn cael eu hamlygu i brofiadau niweidiol lluosog yn ystod plentyndod nac yn cael eu niweidio ganddynt yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf.

Nodwyd dau safle braenaru (Wrecsam a Thorfaen) lle y cynhaliwyd proses gychwynnol o fapio'r 'system' bresennol o ran beichiogrwydd a phlentyndod cynnar.

Mae'r datblygiadau cychwynnol yn Wrecsam a Thorfaen wedi arwain at ennyn gwell dealltwriaeth o'r system 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bresennol yn lleol. Mae gweithgarwch mapio ac ymgysylltu amlasiantaeth pellach wedi nodi cyfleoedd i wella'r system bresennol o ran atal ac ymyrryd yn gynharach.

Sefydlwyd grwpiau prosiect yn y ddau safle i gwblhau'r gwaith hwn, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd lleol, megis eu priod Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ymhlith y prif feysydd gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddynt mae:

- Nodi'r ffactorau risg ac ataliol pwysicaf sy'n effeithio ar y canlyniadau, ac asesu eu hamlder yng Nghymru;
- Atgyfnerthu'r asesiadau craidd a ddarperir yn ystod beichiogrwydd cynnar, er mwyn gallu nodi ac ymateb i ffactorau risg ac ataliol yn gynharach yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn. Ymhlith yr enghreifftiau mae cwmpasu dull sy'n nodi amlygiad (yn cynnwys hanes rhieni o amlygiad) i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ystod beichiogrwydd cynnar, cefnogi staff i deimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau fel rhan o ymchwiliad rheolaidd, a gallu cefnogi neu atgyfeirio'n briodol ar gyfer ymyrraeth gynnar; ac
- Adolygiad o weithgarwch ymchwil academiaidd yng Nghymru sy'n ymwneud â chanlyniadau'r Rhaglen Gydweithredol; bydd y canlyniad yn helpu i lywio cyfleoedd ymchwil a gwerthuso ar y cyd yn y dyfodol.

Imiwneiddio

Mae'r cyfraddau imiwneiddio yn ystod plentyndod yn parhau i fod ar frig meincnodau rhyngwladol ac maent yn gymaradwy â'r cyfraddau gorau yn y DU. Mae'r data blynyddol diweddaraf yn dangos bod nifer y plant blwydd oed a gafodd eu himiwneiddio'n rheolaidd dros 95% ar gyfer wyth mlynedd yn olynol a bod cyfraddau imiwneiddio ar gyfer plant pum mlwydd oed dros 90%.

Mae Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd 2016-17 yn cynnwys dangosydd y dylai plant fod wedi cael y brechiadau perthnasol erbyn iddynt gyrraedd pedair oed.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio gyda byrddau Iechyd i gynyddu nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio. Un maes allweddol y nodwyd y dylid rhoi sylw pellach iddo yw olrhain plant nad ydynt yn ymateb i wahoddiadau rheolaidd mewn practisau cyffredinol ar yr oedrannau penodol.

Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Iechyd Difrifol

Mae chwech o'r cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau Iechyd difrifol naill ai wedi eu diweddarau'n ddiweddar neu wrthi'n cael eu diweddarau.

Mae'r cynlluniau cyflawni ar gyfer canser, clefyd y galon, diabetes, gofal diwedd oes, strôc a'r rhai sy'n ddifrifol wael wedi cael eu diweddarau a chânt eu cyhoeddi ym mis Chwefror.

Caiff y cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau niwrolegol ac Iechyd Anadlol eu diweddarau hefyd yn ystod 2017.

Fel rhan o'r gwaith diweddarau gofynnwyd i bob un o'r Grwpiau Gweithredu gryfhau'r adrannau plant a phobl ifanc o fewn y cynlluniau.

Ysmygu

Gwnaed cynnydd da yng Nghymru i ostwng cyfraddau ysmygu ymhlith pobl ifanc, gyda nifer y bobl ifanc 11-16 oed sy'n ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos yn gostwng o 13% yn 1998 i 4% yn 2014. Mae cyfraddau ysmygu ymhlith oedolion wedi gostwng hefyd o 23% yn 2010 i 19% yn 2015.

Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn cynnwys darpariaethau i wneud tiroedd ysgol yn ddi-fwg.

Nodwyd tiroedd ysgol a meysydd chwarae fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco, a gyhoeddwyd yn 2012. Parhawyd i'w nodi fel manau pwysig lle y dylid atal amlygiad plant i ymddygiadau ysmygu oedolion.

Ymgynghorwyd â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn datblygu'r cynigion hyn.

Rydym wedi darparu cyllid i ASH Cymru i gynnal y rhaglen 'Commit to Quit' gyda phobl ifanc.

Cynhelir y rhaglen 'Commit to Quit' dros gyfnod 10 i 12 wythnos. Mae'n hyrwyddo ymgeisiau i roi'r gorau iddi a newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad ysmygu drwy gyfres o sesiynau grŵp rhyngweithiol a hwylus, a gynhelir ar gyfer pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd gan ddilyn egwyddorion gwaith ieuencid; yn bennaf mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Ar gyfartaledd, cynhelir sesiynau'n wythnosol dros

gyfnod o chwe wythnos, a cheir sesiwn ddilynol bedair wythnos ar ôl y sesiwn derfynol.

Camddefnyddio Sylweddau

Fel rhan o'n dyraniad cyllideb ar gyfer camddefnyddio sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal, caiff £2.75m ei neilltuo i Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae darparwyr gwasanaethau sy'n derbyn yr arian hwn yn darparu ystod o wasanaethau ac mae hyn yn cynnwys Cwnsela, Llesiant Emosiynol ac Addysg a gwasanaeth atal i blant a phobl ifanc o dan 18 oed. Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dechrau camddefnyddio sylweddau, gellir defnyddio'r arian ar gyfer dulliau canfod ac ymyrryd yn gynnar, sy'n hanfodol er mwyn cyfyngu ar niwed a lleihau'r risg y bydd yr ymddygiad camddefnyddio'n ymsefydlu ac yn gofyn am wasanaethau triniaeth arbenigol.

Rydym hefyd yn datblygu Offeryn Monitro Canlyniadau Plant a Phobl Ifanc. Holiadur yw hwn y bydd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ei gwblhau ar y cyd â'u gweithiwr achos. Y nod yw ystyried a yw'r gwasanaethau yn sicrhau canlyniadau pendant, a sut y mae plant a phobl ifanc yn cael budd ohonynt. Bydd y wybodaeth hon yn atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac yn ategu datblygiadau polisi a phenderfyniadau cyllid. Yn dilyn treial a gwerthusiad cychwynnol, mae gweithgor wrthi'n gweithredu llawer o'r prif argymhellion o'r adroddiad gwerthuso ac mae wedi cytuno ar y geiriad ar gyfer holiadur diwygiedig. Y nod yw cynnal ail dreial yn 2017 a gweithredu offeryn canlyniadau addas, ymarferol a derbyniol o ddiwedd 2017 / dechrau 2018 ymlaen.

Rydym wedi sicrhau £1.178m o Gyllid Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi pobl ifanc rhwng 16-24 oed sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau (yn cynnwys alcohol) a/neu iechyd meddwl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, yn economaidd anweithgar, neu nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Y nod yw y bydd y Gwasanaeth Di-waith yn darparu dull mentora cymheiriaid a chymorth arbenigol i oddeutu 1,450 o bobl ifanc yng Nghymru erbyn haf 2018.

Rydym hefyd yn darparu £2.072m yn 2016/17 i'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Cynhelir y rhaglen hon ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ledled Cymru i addysgu plant a phobl ifanc ynghylch ystod o faterion addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar y rhyngwrwd, a phroblemau sy'n gysylltiedig â diogelwch personol. Ariennir y rhaglen hon ar y cyd â'r Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

Lansiwyd Cynulliad Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn 1999 i annog y broses o ddatblygu cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Erbyn hyn cynhelir y rhaglen gan lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu cyllid ac arweiniad i'r cynlluniau ysgolion iach lleol yn y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Heddiw, mae 99.6% o ysgolion yng Nghymru yn rhan o'r Rhwydwaith, ac fe'u cefnogir gan gydgyssylltwyr ysgolion iach lleol.

Mae'r 'Ysgol Iach' yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo, gwarchod ac ymgorffori iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned drwy gamau cadarnhaol.

Er 2010 mae ysgolion wedi gallu ennill achrediad terfynol cenedlaethol ar gyfer ymarfer eithriadol; 'Gwobr Ansawdd Cenedlaethol' Llywodraeth Cymru. Mae dangosyddion y Wobr yn edrych am ddull ysgol gyfan o ymdrin â phynciau iechyd ym meysydd arweinyddiaeth a chyfathrebu, y cwricwlwm, amgylchedd ac ethos yr ysgol, a chyfraniad teulu a chymuned.

